RHAGLEN HYFFORDDIANT SGILIAU YMCHWIL

2026 – 27



COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2026-27

Cyflwyniad

Croeso i Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil 2026-27.

Darperir yr hyfforddiant sgiliau ymchwil hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch Cymru. Hon yw'r unig raglen o hyfforddiant ymchwil a geir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Rhaglen Sgiliau Ymchwil y Coleg yn **agored i fyfyrwyr ôl-radd o bob prifysgol**, ac wedi'i theilwra'n arbennig er mwyn cefnogi a chynnig hyfforddiant ymarferol i bob ymchwilydd gyrfa-gynnar – p'un a wyt ti'n astudio ar gyfer gradd Meistr, MPhil, doethuriaeth neu ymchwil ôl-ddoethurol.

Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â materion megis trefnu a chynllunio dy ymchwil, trin a thrafod ffynonellau, dulliau ymchwil, sgiliau ysgrifennu academaidd, yn ogystal â materion yn ymwneud ag iechyd a lles, a hyrwyddo gyrfa a chyflogadwyedd.

Darperir yr hyfforddiant gan gyflwynwyr profiadol, boed yn staff academaidd sy'n ymchwilwyr profiadol, neu'n staff proffesiynol mewn unedau cefnogi.

Yn ôl yr arfer, daw'r Rhaglen i ben gyda chynhadledd ymchwil ryngddisgyblaethol ar ddiwedd mis Mehefin 2027.

Nid oes cost i fynychu'r hyfforddiant: darperir llety a lluniaeth am ddim, ac ad-delir costau teithio. Mae croeso mawr i bawb - beth bynnag yw dy bwnc a phwy bynnag sy'n dy gyllido.

Mae'r rhaglen hefyd yn ffordd o greu cymuned ac yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn, felly ymuna â chymuned ôl-raddedig y Coleg a manteisia ar y cyfleoedd sydd ar gael i ti.


I ymuno â'r **rhestr e-bost** i dderbyn gwybodaeth berthnasol, clicia yma.

Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae

Datblygwyd y Rhaglen mewn cydweithrediad â'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac mae'r holl weithdai yn seiliedig ar y meysydd a adwaenir gan Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae ar gyfer cynhyrchu a meithrin ymchwilwyr effeithiol.

Bydd nifer o'r gweithdai yn pontio mwy nag un maes, ond nodir mewn cromfachau ar y dudalen nesaf beth fydd prif sylw'r gweithdai a sut maen nhw'n perthyn i Fframwaith Vitae.

Mae prifysgolion Cymru wedi mabwysiadu rhai neu'r cyfan o'r gweithdai hyn o fewn eu rhaglenni hyfforddi ymchwil eu hunain. Ceir fwy o wybodaeth am ddarpariaeth hyfforddiant ymchwil eich prifysgol chi ar wefan y brifysgol neu drwy gysylltu â chanolfan ôl-raddedigion eich prifysgol.



Rhaglen Sgiliau Ymchwil 2026/27

Cyfarfod cynefino

14 Medi 2026, Caerfyrddin

Cyfarfod cynefino i groesawu deiliaid newydd Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg.

Cwrs 1

1 - 2 Rhagfyr 2026, Prifysgol Aberystwyth

Ffurflen gofrestru cwrs 1

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Cyflwyniad i ymchwil (B1)
- Dulliau ymchwil (A1)
- Llunio adolygiad o'r llenyddiaeth (C2)
- Taith a chyflwyniad i'r Llyfrgell Genedlaethol (A1)
- Rheoli'r goruchwyliwr (D1)
- Moeseg ymchwil (C1)
- Trefnu a rheoli eich ymchwil (C2)

Cwrs 2

26 - 27 Ionawr 2027, Prifysgol Bangor

Ffurflen gofrestru cwrs 2

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Rhoi graen ar eich gwaith (A3)
- Methodoleg dyfynnu a chyfeirio at ffynonellau (C2)
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno (D2)
- Cyfieithu, trawsieithu a rheoli termau (A1)
- Deallusrwydd artiffisial (A1)
- Rheoli amser a phwysau gwaith (B2)

A mwy!

Rhaglen Sgiliau Ymchwil 2026/27

Cwrs 3

2 - 3 Mawrth 2027, Prifysgol Bangor

Ffurflen gofrestru cwrs 3

Cwrs preswyl i rai sy'n dod tuag at ddiwedd eu PhD, yn cynnwys y gweithdai isod:

- Paratoi at y Viva (C2)
- Cynllunio gyrfa a chwilio am swyddi (B3)
- Paratoi CV a chais effeithiol am swydd(B3)
- Cyfathrebu a rhwydweithio digidol effeithiol (B3)
- Cyflwyno'ch hun yn broffesiynol mewn cyfweliad (B3)
- Grantiau ac effaith (C3)
- Trafodaeth gyda chyn-fyfyrwyr (D1)

Cwrs 4

15 - 16 Ebrill 2027, Prifysgol Caerdydd

Ffurflen gofrestru cwrs 4

Cwrs preswyl yn cynnwys y gweithdai isod:

- Ysgrifennu academaidd (A3)
- Paratoi a chyflwyno papur cynhadledd (D2)
- Paratoi a chyflwyno poster ymchwil (D2)
- Sgiliau Microsoft i fyfyrwyr ymchwil (A1)
- Cynllunio ac ysgrifennu'r PhD (C2)
- Sgiliau ysgrifennu 1:1 (A3)
- Darllen testun yn feirniadol (A2)
- Cyflwyno ymchwil wyddonol (D3)
- Ymchwil a chyhoeddi (D2)
- Iechyd meddwl a lles (B2)

Rhaglen Sgiliau Ymchwil 2026/27

Cwrs Sgiliau Addysgu

Ffurflen gofrestru

6 Mai 2027: Prifysgol Caerdydd

Cwrs undydd hyfforddiant sgiliau addysgu i fyfyrwyr ymchwil dan arweiniad Dyddgu Morgan-Hywel.

Cynhadledd Ymchwil

24 – 25 Mehefin 2027: Aberystwyth

Cyfarfod blynyddol y cynllun ysgoloriaethau ymchwil a Chynhadledd Ymchwil aml-ddisgybaethol y Coleg Cymraeg.

Bydd yr alwad am bapurau yn agor ym mis Ionawr - cadwa lygad ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Coleg am fanylion!



Adborth

“Rydych chi wir yn cael ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned ac mae'r cyfle i ddod i adnabod myfyrwyr eraill ar y rhaglen yn wych”



“Roedd cymysgedd o bob dim sydd angen er mwyn cwblhau PhD. Roedd hefyd yn gyfle gwych i gwrdd â myfyrwyr eraill o Brifysgolion eraill oedd yn yr un cwch â mi. Rwy'n dal i gadw mewn cysylltiad gyda nhw“



“Pob un sesiwn yn dda ac yn werthfawr i’r siwrne PhD. Wedi mwynhau!”


Enghraifft o amserlen cwrs

Diwrnod 1	
10:15 - 10:30	Cyrraedd, croeso, paned
10:30 - 11:00	Dod i adnabod ein gilydd
11:00 - 12:30	Sesiwn 1
12:30 - 13:15	Cinio
13:15 - 14:30	Sesiwn 2
14:30 - 14:45	Egwyl a phaned
14:45 - 16:15	Sesiwn 3
16:15 - 16:30	Egwyl a phaned
16:30 - 17:30	Sesiwn 4
19:00	Swper

Diwrnod 2	
09:15 - 9:30	Cyrraedd a phaned
09:30 - 11:00	Sesiwn 5
11:00 - 11:15	Egwyl a phaned
11:15 - 12:45	Sesiwn 6
12:45 - 13:30	Cinio
13:30 - 15:00	Sesiwn 7
15:00 - 15:15	Egwyl a phaned
15:15 - 16:15	Sesiwn 8
16:15	Cloi a gadael







COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Fy ffefrynnau Termau EN CY A A A

Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Llyfrgell ar-lein ar gyfer adnoddau addysgu digidol Cymraeg a dwyieithog

Chwilio am adnodd | Pwnc | Math o adnodd | Lefel | Tagiau | CHWILIO



Ychwanegwyd: 14/09/2026 | 739
Cynefino Gyda Hanes Cymru



Ychwanegwyd: 30/07/2026 | 1.1K
Cyhoeddi Academaidd




Ychwanegwyd: 30/07/2026 | 722
Cyflwyniad i Wasg Prifysgol Cymru



Ychwanegwyd: 29/07/2026 | 1.1K
Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg



Ychwanegwyd: 16/06/2026 | 1.1K
Cynhadledd Ymchwil 2026



Ychwanegwyd: 08/05/2026 | 1.3K
Cyflwyniad i NVivo



Ychwanegwyd: 08/05/2026 | 1.1K
Cyflwyniad i SPSS



Ychwanegwyd: 30/07/2026 | 788
Cyflwyniad i Gwerddon



Ychwanegwyd: 02/10/2024 | 1.7K
Dylunio a dadansoddi arolygon

yporth.ac.uk

Gwerddon

Yr e-gyfnodolyn academaidd Cymraeg

Ydych chi'n gwneud ymchwil academaidd?

Beth am ystyried cyhoeddi yn Gwerddon?



Mae Gwerddon yn cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd gwreiddiol ar draws ystod eang o ddisgyblaethau academaidd - o ddaearyddiaeth i ieithyddiaeth, o ffiseg i gymdeithaseg.

Ewch i gwerddon.cymru i weld:

- Y rhifyn diweddaraf
- Dros 130 o erthyglau
- Sut i gyfrannu erthygl

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

gwerddon.cymru
@gwerddon

Pam cyhoeddi yn Gwerddon?



1. Mae modd cyhoeddi ar unrhyw bwnc academaidd
2. Barn arbenigol ar eich gwaith a chefnogaeth termau ac iaith
3. Mae Gwerddon yn gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)
4. Llwyfan rhad ac am ddim i gyhoeddi gwaith academaidd
5. Adolygiadau 'dwbl-ddall'
6. Cyfle i gyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg
7. Sylw i'ch gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â
gwybodaeth@gwerddon.cymru

Gwerddon

Ymchwil ar y Gweill

Y Podlediad Academaidd Cymraeg

CYFRES UN YN FYW!

PENNOD 12 – CYLLID A DATGANOLI GYDA GUTO RHYS HUGHES

PENNOD 11 – DIDDORDEBAU YN Y DOSBARTH IEITHOEDD GYDA LAURA JENKINS

PENNOD 10 – Y GYMRAEG AC IECHYD GYDA MAISIE EDWARDS

PENNOD 9 – DULLIAU DYSGU CYMRAEG GYDA EMMA GRIGORIAN

PENNOD 8 – GWEITHIO GYDA GORUCHWYLWYR GYDA DR JON MORRIS

PENNOD 7 – DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL GYDA BECA WYN OWEN

PENNOD 6 – DYFODOL FFERMYDD YNG NGHYMRU GYDA GWENLLIAN JENKINS

PENNOD 5 – DOSBARTH CYMDEITHASOL A'R GYMRAEG GYDA HELEDD WILLIAMS

PENNOD 4 – CREADIGRWYDD YN Y CWRICWLWM GYDA MEGAN SASS

PENNOD 3 – Y LYSOSOM GYDA GWENNO ROWLANDS

PENNOD 2 – HANES PÊL DROED GYDA BETH JONES

PENNOD 1 – DYSGU YNGANU GYDA MARIAN BROSSCHOT

Cyfres 2 yn dechrau

09.09.2026



Sganiwch i wrando

Dilynwch ni ar


@YMCHWILARYGWEILL

YMCHWIL AR Y GWEILL

@YMCHWILARYGWEILL

GEIRIADUR TERMAU'R COLEG CYMRAEG

Geiriadur termau safonol i hwyluso'r broses o astudio ac addysgu yn Gymraeg ar lefel prifysgol.



www.colegcymraeg.ac.uk/termau

Os wyt ti'n fyfyriwr neu'n ddarlithydd, defnyddia'r geiriadur termau i chwilio miloedd o dermau technegol yn Saesneg neu'n Gymraeg o ystod eang o feysydd pwnc:

- Termau'n cynnwys diffiniadau a delweddau esboniadol
- Termau newydd yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd
- Ar gael ar wefan y Coleg ac ar yr Ap Geiriaduron

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Ar gael fan hyn hefyd

EARLY CAREER RESEARCHERS NETWORK
LEARNED SOCIETY OF WALES

RHWYDWAITH YMCHWILWYR GYRFA CYNNAR
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

RHWYDWAITH CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER DATBLYGU YMCHWILWYR

Rydym yn rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar i gyfarfod, dysgu a chydweithio. Mae'r cofrestru am ddim, ac yn agored i bawb.

Rydym yn ymdrin â phob disgyblaeth a sefydliad academaidd yng Nghymru, yn ogystal ag ymchwilwyr yn y trydydd sector, y llywodraeth a diwydiant. Mae'r rhwydwaith hwn wedi'i anelu at unrhyw un sy'n dechrau gyrfa mewn ymchwil neu sy'n dechrau gweithio gydag ymchwilwyr.

Mae ein rhwydwaith yn cynnig rhaglen o weithgareddau i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, o fyfyrwyr PhD blwyddyn olaf ymlaen. Mae'r rhain yn cryfhau sgiliau a gallu ymchwilwyr. Rydym yn rhedeg gweithdai a chynadleddau, cynlluniau grantiau a gwobrau. Rydym yn annog cydweithio rhwng disgyblaethau, drwy ddod ag ymchwilwyr o bob rhan o Gymru at ei gilydd i weithio gyda'n Cymrodyr.

- Ymgysylltu â syniadau creadigol ac ysbrydoledig ar flaen y gad o ran ymchwil ac ymarfer;
- Ennill profiadau a sgiliau sy'n cefnogi eich datblygiad a'ch proffil proffesiynol;
- Ddatblygu rhwydweithiau cryf a chydweithio ar draws disgyblaethau a sectorau academaidd.

Ymunwch â'r rhwydwaith a chofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr misol.

www.cymdeithasddysgedig.cymru/rygc-hafan/


GPC Geiriadur Prifysgol Cymru
A Dictionary of the Welsh Language

Geiriadur Prifysgol Cymru Ar Lein ac apiau GPC

Beth am ddefnyddio GPC Ar Lein neu Ap GPC?

Cewch fynediad i eiriadur sy'n cyfateb i'r *Oxford English Dictionary*. Mae GPC yn waith enfawr o dros 4,000 o dudalennau, dros naw miliwn o eiriau i gyd, a bron i hanner miliwn o ddyfyniadau enghreifftiol.

- **Ystyr gair? Hanes gair?** Ceir diffiniadau yn Gymraeg yn ogystal â chyfystyron Saesneg, dyfyniadau yn dangos defnydd y gair dros y canrifoedd, a tharddiad y gair.
- **Cyfuniadau fel 'ar gefn ei geffyl'.** Rhestrir cyfuniadau neu ymadroddion cyffredin sy'n cynnwys y gair, a'u hystyron.
- **Ergydiant? Isobar?** Ceir cryn nifer o derm-au technegol ac y mae'r nifer yn cynyddu wrth i'r tîm ychwanegu geiriau'n gyson.
- **Methu meddwl am y gair Cymraeg iawn?** Mantais fawr y fersiwn electronig yw bod modd teipio gair Saesneg i mewn a chael rhestr o'r holl eiriau Cymraeg sy'n cynnwys y gair hwnnw yn eu diffiniadau.
- **Methu sillafu gair?** Ceir cymorth gyda sillafiad geiriau: os nad oes modd dod o hyd i air, cynigir rhestr o eiriau tebyg.
- **Treigladau'n broblem?** Dangosir holl ffurfiau treigledig gair yn y canlyniadau chwilio, felly bydd chwilio am '*blaen*' yn dod o hyd i '*ar flaen ei dafod*' a '*pysgota ym mlaen y rhwyd*' hefyd.



Ystyrir GPC yn safon ar gyfer sillafu, ffurfiau lluosog, cenedl enwau, ac yn y blaen. Mae'r holl wybodaeth yn y Geiriadur yn seiliedig ar gorpws o enghreifftiau go iawn.

Bydd cannoedd o gofnodion newydd a diweddariadau o hen gofnodion yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

Cwestiynau? Peidiwch â phetruso cysylltu â ni ar gpc@geiriadur.ac.uk neu drwy gyfrwng Facebook neu Twitter.



Am GPC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gw. https://www.geiriadur.ac.uk/coleg-cymraeg-cenedlaethol/

'Gair y Dydd' ar Facebook ac X/Twitter

www.facebook.com/geiriadurGPC


Dilynwch ni, gwnewch sylwadau, neu holwch.

@geiriadur (Cymraeg) neu @GPCdictionary (Saesneg)

Mae **GPC Ar Lein** ar gael **am ddim** dros y We (http://gpc.cymru).

Gellir lawrlwytho'r ap **am ddim** o storfeydd apiau Apple, Amazon, a Google (e.e. drwy sgan-io'r codau QR isod).

Ar ôl i chi lawrlwytho'r ap gellwch lawrlwytho'r data hefyd: pwyswch ar GPC a dewiswch 'Gosodiadau', 'Cronfa Ddata' a 'Cronfa ddata leol (lawn)', a dilyn y cyfarwyddiadau.



Mae angen tua 200MB o le storio ac yna bydd modd ei ddefnyddio unrhyw bryd.

Mae'r ap hefyd yn cynnwys cwpl o gemau i'ch helpu i adolygu geiriau 'rydych wedi chwilio amdanynt yn ddiweddar.

Problemau neu gwestiynau? Ewch i https://www.geiriadur.ac.uk neu e-bostiwch gpc@geiriadur.ac.uk

Mae'r ap yn gyflym ac yn gyfleus.

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

available at amazon appstore

Download on the App Store

GET IT ON Google Play



COLEG CYMRAEG
CENEDLAETHOL